



Mr Colin Everett
Prif Weithredwr
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NB

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

17 Ebrill 2015

Annwyl Mr Everett

Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a roddir o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Gwybodaeth Ychwanegol Angenrheidiol

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn, rwyf wedi cael cyfle i adolygu pob ymateb gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad ac rwyf wedi amgáu fy arfarniad o'ch ymateb chi.

Os codoch chi gwestiynau penodol ynghylch fy Anghenion Gweithredu, mae fy ymateb i'r rhain wedi'i atodi.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Mae'n glir o'ch ymateb eich bod wedi meddwl gryn dipyn am hyn a'ch bod wedi canolbwyntio'n gryf ar y canlyniadau rwy'n ceisio eu sicrhau ar ran pobl hŷn.

Fel y gwelwch o'm dadansoddiad i, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen yn eich ymateb yn 'dderbyniol', yn 'rhannol' (angen rhagor o wybodaeth)

neu'n 'annerbyniol'. Mae 'derbyniol' yn golygu bod lefel y sicrwydd sydd wedi'i roi imi ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn ddigonol; mae 'rhannol' ac 'annerbyniol' yn golygu bod arna i angen rhagor o wybodaeth er mwyn cael fy sicrhau y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

Pan wyf wedi dod i'r casgliad bod elfen yn eich ymateb naill ai'n rhannol neu'n annerbyniol, mae arna i angen rhagor o wybodaeth neu ymagwedd ddiwygiedig er mwyn cael fy modloni bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r Angen Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon imi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â'r amserlenni a bennir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os nad ydych yn glir ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn arbennig felly beth fyddai'n rhoi'r lefel sicrwydd rwy'n chwilio amdani, neu os oes gennych gwestiynau manwl am yr Anghenion Gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu, ar sail yr wybodaeth bellach a fydd yn dod i law, y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu. Yn ychwanegol at gyhoeddi'r wybodaeth ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, o ran trosolwg o'r camau sydd ar eu hanner a'r camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'm Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso, Daisy Cole, ar 08442 640670.

Yn gywir



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Sir y Fflint

Angen Gweithredu 1.6

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos ymwybyddiaeth o rôl eiriolwyr, a'i fod yn dweud bod gan y Cyngor gytundeb cyllido craidd gydag Age Connects i ddarparu eiriolaeth annibynnol ar gyfer pobl hŷn fel rhan o ofynion ehangach y contract. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn dweud ei fod yn adolygu ei drefniadau ar gyfer contractau.

Mae'r ymateb yn nodi bod yr Awdurdod Lleol yn ymwybodol mai cyfyngedig yw'r trefniadau eiriolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl mewn gofal preswyl sydd ag anghenion ieuchyd.

O ran manylion yr Angen, mae'r Awdurdod Lleol yn dweud ei fod yn dyrannu gweithiwr cymdeithasol, pan fydd cartref yn cau neu pan fydd yn y broses pryderon cynyddol, i helpu i ailasesu ac adnabod lleoliadau addas eraill. Trefnir bod eiriolaeth annibynnol ar gael hefyd pan fo cartref yn cau neu pan fydd yn y broses pryderon cynyddol.

Yn bwysig ddigon, mae materion ynglŷn â diffygion a chynaliadwyedd yn cael eu nodi ac mae'r ymateb yn rhoi rhai cynigion manwl i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r Awdurdod Lleol yn dweud y bydd yn sicrhau bod

gwybodaeth am ddarparwyr eiriolaeth ar gael i reolwyr a staff cartrefi gofal a bod mecanwaith yn cael ei roi ar waith i sicrhau bod eiriolaeth yn cael ei hymgorffori yn yr arferion, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella eiriolaeth ynglŷn â diogelu.

Bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn trefnu bod eiriolaeth ar gael yn ehangach ac yn fwy hwylus i bobl ag anghenion iechyd yn y boblogaeth sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Ymhlith agweddau pwysig eraill ar yr ymateb, mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn dweud y bydd yn codi ymwybyddiaeth ymysg y staff er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o rôl eiriolwyr annibynnol ac er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion y Comisiynydd.

Mae'r ymateb wedi'i wella gan feysydd pendant y mae angen eu cryfhau; mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r angen am eiriolaeth yn y broses ddiogelu. Mae'r Awdurdod Lleol wedi darparu cynllun gweithredu da sy'n cynnwys llinell amser ac enwau'r arweinwyr.

Angen Gweithredu 2.2

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos dealltwriaeth dda o'r ystod o wasanaethau gofal amlddisgyblaeth sydd ar gael yn y sir ac yn esbonio bod gan yr Awdurdod Lleol ymagwedd hyblyg at ddefnyddio ail-alluogi mewn cartrefi gofal cymdeithasol preswyl a chartrefi nyrsio preswyl ar hyn o bryd.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gall hyn fod yn ymagwedd fwy adweithiol; er hynny, mae'r ymateb yn cydnabod bod angen datblygu ymagwedd fwy rhagweithiol drwyddi draw.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn rhoi crynodeb manwl o'r arferion gwaith presennol ac yn dangos dealltwriaeth o feysydd y mae angen eu

cryfhau, gan gynnwys cynllun gweithredu clir yn ei ymateb ynghyd â llinellau amser ac enwau'r arweinwyr.

Angen Gweithredu 3.2

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwyllo ac asesu perfformiad.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen yn dangos bod staff mewn cartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor wedi cael ystod o hyfforddiant ynghylch dementia a bod staff yn y sector annibynnol yn gallu sicrhau hyfforddiant drwy'r cynllun talebau.

Mae'r ymateb yn dangos hefyd y bydd hyfforddwyr arbenigol sydd wedi'u comisiynu yn rhoi hyfforddiant dementia wedi'i dargedu, gan gynnwys dulliau person-ganolog, strategaethau ymdopi a strategaethau cyfathrebu.

Mae'r ymateb yn fanwl ac yn cynnig crynodebau da o'r rhaglenni a'r arferion presennol. Yn ychwanegol, mae'r Awdurdod Lleol yn nodi prinderau a bylchau ac yn cynnwys yn ei ymateb gynllun gweithredu manwl sy'n cynnwys archwiliadau o'r hyfforddiant presennol ar ddementia a'r hyfforddiant parhaus ar ddementia fel rhan o ddatblygu proffesiynol parhaus.

Mae'r ymateb yn dangos ymwybyddiaeth y gallai'r ddarpariaeth bresennol wella drwy ehangu cyfleoedd hyfforddi ac mae'n gosod cynlluniau gweithredu clir ynglŷn â hyn, gan gynnwys defnyddio cynlluniau mentora.

Angen Gweithredu 3.3

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a

chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos dealltwriaeth o gyfeillio a'i bwysigrwydd. Mae'r ymateb yn dangos bod gan yr Awdurdod Lleol bolisi ynghylch defnyddio gwirfoddolwyr yn ei gartrefi a bod rhai gwirfoddolwyr ar gael ynghyd â lefelau gwahanol o ymestyn o du'r cymunedau lleol.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn nodi diffygion yn y ddarpariaeth bresennol ac yn darparu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â nhw. Mae cynigion yr Awdurdod Lleol yn cynnwys archwiliad o'r tirlun presennol a dod i gysylltiad â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Sir y Fflint er mwyn ennyn mwy o gefnogaeth.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi ymateb cynhwysfawr i'r angen hwn. Er hynny, yn fyr, mae'r ymateb yn dangos ymrwymiad pendant i gymryd rhan yn y Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol arfaethedig.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Mae'r ymateb i'r angen hwn yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'r angen i gofnodi lleisiau pobl hŷn; er hynny, nid yw'n llwyddo i ganolbwyntio ar yr elfen allweddol yn yr Angen Gweithredu, sef ansawdd bywyd.

Mae ymateb y Cyngor yn dangos bod ei Dîm Monitro Contractau wedi sefydlu cyfarfodydd agored rheolaidd gyda darparwyr gofal sy'n galluogi'r Awdurdod Lleol i feithrin perthynas weithio dda â'r farchnad yn Sir y Fflint. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhannu arferion da a diweddariadau ar y ddeddfwriaeth ac yn arena ar gyfer trafod agored. Er hynny, nid yw hyn yn mynegi'n glir nac yn benodol sut mae lleisiau pobl hŷn yn cael eu cofnodi neu eu defnyddio.

Er bod cyfeiriadau at nifer o fentrau, megis blwch ebost Monitro Contractau, holiaduron, cyfarfodydd i breswylwyr, digwyddiadau sy'n cael eu hwyluso'n annibynnol, ac ymweliadau ar rota, nid yw'r ymateb yn egluro sut mae'r rhain yn effeithio ar newid.

Serch hynny, mae'r Awdurdod Lleol yn amlinellu nifer o gamau arfaethedig, gan gynnwys datblygu tudalen ar ap y Cyngor er mwyn i bobl roi adborth am gartrefi gofal, adroddiad blynyddol i dangos sut mae

adborth pobl hŷn wedi'i ddefnyddio, a recriwtio ymwelwyr lleyg i gasglu adborth. Er hynny, mae angen rhagor o fanylion i fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn a hefyd am sut y byddan nhw'n sbarduno newid a gwelliant yn y gwasanaethau.

Angen Gweithredu 6.7

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

6.7 Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at
- bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrâu
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos bod disgwyl i Reolwyr Cofrestredig gydymffurfio â rheoliadau AGGCC a llunio'u Hadroddiad Ansawdd eu hunain bob blwyddyn. Mae'r ymateb yn mynd rhagddo i ddweud bod gan yr Awdurdod Lleol Gyd-Banel Monitro Aml-asiantaeth sy'n cyfarfod bob chwarter ac sy'n anelu at roi adroddiad blynyddol ar gyflwr y farchnad yn Sir y Fflint.

Mae'r ymateb yn dangos dealltwriaeth o'r angen am Ddatganiadau Ansawdd Blynyddol a hefyd ymrwymiad i symud ymlaen yn hyn o beth.

Mae Cynllun Gweithredu wedi'i nodi ac mae ymateb yr Awdurdod Lleol hefyd yn cynnwys llinell amser ac enwau arweinwyr.